# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Mehefin 2024 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Elin Walker-Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**
Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**
Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd ar ddiwedd blwyddyn 23/24 a'r gwaith hyd yma yn 2024-25 yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd; ac amlinelliad o ble mae'r adran arni gyda'u mesurau perfformiad; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Pwrpas Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd ydi sicrhau ein bod yn gwneud y gorau gallwn i roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei fesur drwy'r Herio a Chefnogi Perfformiad. Mae'n bwysig i'r Gwasanaeth bod lleisiau a phrofiadau unigolion o Wynedd sydd yn defnyddio ein Gwasanaethau yn sicrhau bod profiadau gorau yn cael ei roi i bobl Gwynedd.

1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth drwy Gynllun y Cyngor yn symud ymlaen, sef y Cynllun Awtistiaeth a'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan.

## 2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael â phrif risgiau'r adran. Yn gyffredinol

teimlaf fod bob prosiect yn gwneud cynnydd yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.

2.2 Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan

Rydym am wella profiadau plant sydd yn derbyn gofalsydd ag anghenion dwys a chymhelth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. Erbyn hyn rydym wedi prynu eiddo yn ardal Dwyfor ym Morfa Bychan diwedd Mis Mawrth. Mae grŵp prosiect wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod yn fisol. Mae'r proses recriwtio am swyddi ar gyfer y cynllun wedi cychwyn. Mae swydd rheolwr eisoes yn cael ei hysbysebu a bydd swydd ddirprwy a gweithiwyr preswyl yn dilyn yn fuan. I hybu recriwtio rydym yn cynnal prynhawn recriwtio ym Mhorthmadog ar y 26ain o Fehefin ar gyfer y swyddi dirprwy reolwr a gweithwyr preswyl. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru gyda'r gobaith o agor y drysau ar gyfer plant / pobl ifanc o gwmpas Mis Medi. Rydym hefyd dal i edrych am ail a trydydd eiddo yng Ngwynedd er mwyn gallu agor drysau i ddau dŷ arall yn y dyfodol ar gyfer y cynllun.

2.3 Cynllun Awtistiaeth

Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi’n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei angen arnynt.  Byddwn felly yn gwella’n darpariaeth a’i gwneud hi’n haws i unigolion a’u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau. Mae’r tîm yn datblygu rhaglenni cefnogi rhieni/gofalwyr i’w cynnal ar yr un pryd â’r gweithdai a gynigir i bobl ifanc a’r rhai sy’n cael cynnig cymorth uniongyrchol 1-1, er mwyn cyflawni unrhyw newid sydd ei angen ar yr unigolyn awtistig a’r rhiant/gofalwr i gael mynediad at wybodaeth/datblygu gwybodaeth. Mae’r tîm yn parhau i weithio ar brosiect Llwybrau ni, a fydd yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc, egwyl i rieni a gofalwyr unigolion sydd â diagnosis o awtistiaeth, yn aros am asesiad/ diagnosis ac unigolion na fydd yn cwrdd â’r meini prawf ar gyfer gwasanaethau arbenigol pan maent yn pontio i oedran oedolyn. Bydd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar gymdeithasu, datblygu sgiliau byw'n annibynnol a byddant yn cynnig seibiant tymor byr i rieni a gofalwyr. Mae’r grwpiau yn profi i fod yn llwyddiannus, wedi rhedeg 3 sesiwn ar niferoedd wedi cynyddu yn wythnosol. Bu nifer uwch o gyfeiriadau ar gyfer unigolion 14-25. Ar ôl cwblhau asesiadau o’r hyn sy’n bwysig, mae’r themâu a nodwyd yn ymwneud ag arwahanrwydd, peidio â deall eu diagnosis o awtistiaeth, rheoleiddio emosiynol, llosgi allan, sgiliau byw’n annibynnol. O ganlyniad mae’r tîm wedi dechrau ‘archwilio fy awtistiaeth’ (14-18 oed) sy’n cynnig gwybodaeth, cyngor, cymorth ac addysg tra hefyd yn cynnig cyfle i unigolion gymdeithasu a chwrdd â phobl ifanc awtistig eraill. Mae’r tîm wedi cynnal diwrnod gwybodaeth ym Mhorthmadog (lleoliad canolog) lle’r oedd llu o wasanaethau o bob rhan o’r sir yno i gynnig cyngor ac arweiniad a dangos i unigolion a theuluoedd beth all eu gwasanaeth ei gynnig. Roedd y bws awtistiaeth hefyd ar gael ar y diwrnod i rieni/gofalwyr ei brofi. Mynychodd dros 100 o unigolion ar y diwrnod gyda 62 yn profi’r Profiad Realiti Awtistiaeth.

## 3. PERFFORMIAD A MESURAU

3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud â'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar berfformiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i ni.

3.2 Capasiti'r Gweithlu - Mae'r sefyllfa gweithlu yn parhau yn fater o bryder. Drwy'r prosiect Cynllunio'r Gweithlu a Gofalwn Cymru rydym wedi dechrau rhoi ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar waith. Gan fod y pryder yn un pell gyrhaeddol mae gwaith ar y gweill i drio sefydlogi'r sefyllfa at y dyfodol. Cymrwyd rhan mewn grŵp ffocws ym Mhrifysgol Bangor gyda'r cwrs Astudiaethau Plentyndod a Ieuenctid. Rydym yn awyddus i gyd weithio mwy ar ran cynnig lleoliadau gwaith a hefyd i weld beth all y cwrs wneud i baratoi unigolion yn well ar gyfer byd gwaith. Ers mis Tachwedd ma' na fwy o leoliadau profiad gwaith wedi'u trefnu gyda 80 o leoliadau ychwanegol hyd yn hyn sy'n dod a'r cyfanswm i 150. Mae amrywiaeth o wasanaethau wedi elwa a rhai wedi cyflogi yn dilyn y profiadau gwaith. Mae'r bobl ifanc yn gymysgfa o griw Coleg Iechyd a Gofal, yn fyfyrwyr Prifysgolion lleol ac yn griwiau chweched dosbarth sydd yn chwilio am fwy o brofiad. Mae ymgyrchoedd parhaol yn rhedeg gyda cyfryngau cymdeithasol er mwyn hybu unigolion i drio am swyddi yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae 80 o bobl wedi cysylltu drwy'r ymgyrch ers mis Tachwedd. Rydym hefyd wedi defnyddio y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo storïau newyddion da e.e. Derwen ar Brosiect Pum Mil a criw Lleisiau Llawen ar Cais Quinnell. Fel a nodwyd eisoes rydym wrthi yn trefnu digwyddiad recriwitio ym Mhorthmadog ar y 26ain o Fehefin ar gyfer swyddi gweithiwyr preswyl ar gyfer Cartrefi Grŵp Bychan sydd datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal fel rhan o Gynllun y Cyngor ac i dychwelyd plant yn ôl i'w cynefin.

3.3 Y galw a'r math o gefnogaeth - Mae'r adran yn parhau i weld fod natur yr achosion sydd yn cael eu cefnogi yn arddangos fod anghenion plant a theuluoedd yn gymhleth, yn dwysau, eu bod angen pecyn cefnogaeth a phecynnau gofal eang, cynhwysfawr ac arbenigol iawn. Mae hyn i weld ar gyfer pob gwasanaeth o fewn yr Adran Blant. Mae niferoedd sydd yn agored i dimau wedi codi. Mae niferoedd sydd yn agored i'r Tîm Ôl 16 yn parhau i fod ar ei uchaf erioed. Mae'r broblem o ddigartrefedd dal yn un sydd yn cynyddu ac mae problem yn parhau i ddarganfod llety addas ar gyfer unigolion. Rydym eisoes mewn trafodaethau gyda'r trydydd sector i weld os oes modd cynllunio at y dyfodol ar gyfer pobl ifanc sydd yn gweld ei hunain yn gadael gofal a gyda'r potensial o fod yn ddigartref. Yn ogystal mae'r galw am wasanaeth Derwen yn enwedig yr elfen gefnogol yn ogystal â chefnogaeth gweithiwyr cymdeithasol hefyd wedi cynnyddu yn ddiweddar.

3.4 Mae'r niferoedd sy'n cysylltu am Wybodaeth, Cyngor neu Gefnogaeth yn parhau i fod yn sylweddol uwch nag oeddent cyn y pandemig. Dros gyfnod o 6 mis o Hydref 2023 i Fis Mawrth 2024 daeth 3,598 i gyswllt. Mae ceisiadau a galwadau mae'r Tîm Derbyn wedi ei dderbyn yn yr ail a trydydd chwarter o 23/24 wedi bod ar ei uchaf erioed. Rydym o'r farn fod effeithiau'r pandemig yn parhau i yrru'r galw, ynghyd â'r argyfwng costau a'r straen ar deuluoedd o ganlyniad yn cyfrannu tuag at yr angen am gefnogaeth.

3.5 Rydym wedi bod yn rhan o ymgyrch maethu cenedlaethol Maethu Cymru i ddenu pobl i feddwl am faethu. Mae'r ymgyrchoedd yma yn un o'r ffyrdd yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â sicrhau digon o leoliadau gofal yn lleol i blant pe bai angen iddynt ddod i ofal. Ers yr adroddiad diwethaf mae Gwynedd wedi penodi ail swyddog recriwitio ar gyfer de'r Sir.

Mae hefyd ymgyrch digidol rhanbarthol rhan 2 i adeiladu presenoldeb digidol ac ymwybyddiaeth brand ar gyfer Maethu Cymru Gogledd Cymru. Yn ystod Ionawr / Chwefror fe lansiwyd ymgyrch Cenedlaethol 'Gall Pawb Gynnig Rhywbeth'. Amlygodd y sgyrsiau hyn tri pheth allweddol sy'n atal gofalwyr posibl rhag gwneud ymholiad, gan gynnwys:

- Diffyg hyder yn eu sgiliau a'u gallu i gefnogi plentyn mewn gofal.
- Y gred nad yw maethu'n cyd-fynd â rhai ffyrdd o fyw.
- Camdybiaethau am y meini prawf i fod yn ofalwr.

Gyda'r wybodaeth yma, mae Maethu Cymru wedi defnyddio storïau go iawn gofalwyr yng Nghymru i ddangos bod maethu gyda'r awdurdod lleol yn hyblyg, yn gynhwysol ac yn dod gyda chyfleoedd helaeth am hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

Ym mis Mawrth ac Ebrill bu ymgyrch ar gyfer maethu pobl ifanc yn eu harddegau. Mae mwy na 280 o blant yng ngofal yr awdurdod lleol yng Ngwynedd, gyda 13 o blant ar yn aros am gartref maeth ac mae wyth ohonynt yn 11 oed neu'n hŷn. Yn ganolbwynt i'r ymgyrch, siaradodd gwraig ifanc leol am sut y gwnaeth teulu maeth newid ei bywyd yn ei harddegau ac wedi iddi ddod yn oedolyn, gan annog eraill i ystyried rhoi eu henwau ymlaen fel darpar ofalwyr maeth.

Yn ystod Mis Mai mae pythefnos Gofal Maeth lansio llyfr goginio newydd maethu Cymru, 'Gall Pawb Gynnig Rhywbeth' sydd â chefnogaeth gan enwogion, gyda'r nod o rannu profiadau realistig o ofal maeth a dangos profiadau dyddiol – megis coginio swper bob nos. Bydd cynrychiolaeth yr rhanbarth gyda Meinir Bebb ar stondin yn yr Eisteddfod yr Urdd yn Maldwyn lle bydd yn trafod yr ymgyrch 'Gall pawb gynnig rhywbeth' a'r llyfr coginio newydd. Hefyd dringodd tîm o Maethu Cymru Gwynedd, gyda chydweithwyr o Maethu Cymru Môn a Chwm Taf Morgannwg, y 15 copa i godi ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth anhygoel y mae gofal maeth yn ei wneud a chodi arian ar gyfer Voices from Care Cymru, elusen sy'n cefnogi pobl ifanc â phrofiad o ofal yng Nghymru. Cynhaliwyd diwrnod arbennig i ofalwyr maeth a staff yng Nghlwb Pêl Droed Porthmadog i ddathlu thema Pythefnos Gofal Maeth eleni.

3.6 O ran mesurau'r adran, rwyf ar y cyfan yn hapus gyda'u perfformiad. Nid oes unrhyw fesurau ar hyn o bryd yn peri pryder i mi ond byddaf yn cydweithio gyda'r Pennaeth drwy drefniadau arferol herio perfformiad.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

4.1 Roedd cyfanswm Cynlluniau Arbedion 23-24 ar gyfer yr adran o £44,010 ond drwy edrych ar wariant all-sirol a pedwar lleoliad heb ei reoleiddio mae gorwariant o fewn yr Adran Plant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 23-24 yn £2.611m. Bydd y sefyllfa yma yn gwella unwaith bydd y cynllun cartrefi grŵp bychan yn weithredol. Mae hyn oherwydd bydd gwariant all-sirol / lleoliadau heb ei reoleiddio yn cael ei ariannu drwy gynllun cartrefi grŵp bychan felly bydd y gwasanaeth yn fewnol yn hytrach na darparwyr allanol.

4.2 Ar gyfer 2023/24, fel rhan o'r drefn bidiau, mae'r Adran wedi derbyn £130,000 fel bid un-tro tuag at barhau i gyflogi 3 ymarferydd gofal cymdeithasol. Mae'r swyddi wedi eu harfarnu a phenodiadau wedi gwneud a swyddogion mewn lle. Cafodd bid i wneud y swyddi yn barhaol ei roi ar gyfer 24/25 ond roedd yn aflwyddiannus. Roedd 5 bid arall wedi cael ei gyflwyno ar gyfer 24/25. Allan o'r bidiau dim ond un bid parhaol oedd yn

llwyddiannus sef bid "Llwybr Gyrfa Gweithwyr Cymdeithasol" am £86,250. Roedd 2 fid un-tro yn llwyddiannus sef bid "Costau Un-tro Llwybr Gyrfa Gweithwyr Cymdeithasol" am £99,520 dros 3 blynedd, a bid "Gweithwyr Ychwanegol ar gyfer Ceiswyr Lloches Heb Gydymaith" am £115k.

**5. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Plant a Chefnogi Theuluoedd.

a. **Barn yr Aelod Lleol:**

    i. Ddim yn fater lleol.

b. **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

    i. Dim i'w nodi.

---